



NUT  
CANLLAW  
ANG  
2017

# Cyfnod Sefydli



Yr undeb mwyaf  
ar gyfer athrawon

# Cymhwyso i addysgu yn 2017? Aelodaeth lawn am ddim ond £1

Rhif ffôn i ymaelodi  
**020 7380 6369**

Dydd Llun i ddydd Gwener (9am-5pm)

[teachers.org.uk/join](http://teachers.org.uk/join)

## NUT + ATL = Undeb Addysg Cenedlaethol

O 1 Medi 2017 bydd yr NUT ac ATL yn ffurfio undeb newydd.

Fel aelod o'r NUT byddwch yn trosglwyddo'n awtomatig i'r Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU).

# Annwyl gydweithiwr

Mae addysgu yn swydd arbennig. Mae'n un sy'n llawn her a phleser. Mae'n ofynnol i bob athro sydd wedi ennill Statws Athro Cymwys (SAC), gwblhau cyfnod sefydlu o flwyddyn, fel arfer.

Cred yr NUT y dylai'r cyfnod sefydlu fod yn broses gefnogol sydd yn helpu athrawon newydd i ddechrau datblygu eu hyder proffesiynol a'u gallu ymhellach. Ni ddylai felly achosi pwysau ychwanegol i athrawon.

Bydd y ddogfen hon yn rhoi atebion i athrawon newydd ynglŷn â nifer o'r cwestiynau sydd yn codi yn ystod y cyfnod sefydlu.

Gaf i gymryd y cyfle hwn i ddymuno pob llwyddiant i chi yn ystod eich cyfnod sefydlu a'ch gyrfa. Bydd yr NUT yno i'ch cefnogi ar bob cam o'r ffordd.

Gyda phob dymuniad gorau,

Yr Eiddoch yn Gywir



Kevin Courtney  
Ysgrifennydd Cyffredinol



PIC @JESS HERD

## NUT + ATL = Undeb Addysg Cenedlaethol

O 1 Medi 2017 bydd yr NUT ac ATL yn ffurfio undeb newydd.

Fel aelod o'r NUT byddwch yn trosglwyddo'n awtomatig i'r Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU).

# Adnabod eich cynrychiolydd undeb

Eich cyswllt cyntaf o fewn yr Undeb yw eich cynrychiolydd neu eich ysgrifennydd lleol. Os nad oes cynrychiolydd yn eich gweithle, am gymorth a chynghor yn Lloegr dylech gysylltu ag AdviceLine yr NUT ac, yng Nghymru, NUT Cymru. Ceir manylion cyswllt ar dudalen 16.

## Mae gen i SAC. Beth nesaf?

Derbynioch statws athro cymwys (SAC). Nawr mae angen i chi gwblhau rhaglen sefydlu ac i gwrdd â *Safonau Athrawon* (Lloegr) neu'r *Safonau Athrawon wrth eu Gwaith* (Cymru).

## Cyrff Priodol

Mae'r corff priodol yn gyfrifol am benderfynu os ydych chi'n cwrdd â'r *Safonau Athrawon* (Lloegr) neu'r *Safonau Athrawon wrth eu Gwaith* (Cymru), yn seiliedig ar argymhelliad eich pennaeth.

## Beth yw'r *Safonau Athrawon* (Lloegr)?

Defnyddir y *Safonau Athrawon* i asesu pawb sydd yn cwblhau eu cyfnod sefydlu statudol, yn ogystal â phob athro arall mewn ysgolion a gynhelir. Dylai'r penderfyniad ynglŷn ag os yw Athro *Newydd Gymhwys* (ANG) wedi cyrraedd y safonau perthnasol ar ôl cwblhau'r cyfnod sefydlu, ystyried cyd-destun gwaith yr ANG a dylid penderfynu ar sail yr hyn y gellir ei ddisgwyl o fewn rheswm gan ANG erbyn diwedd eu cyfnod sefydlu o fewn y fframwaith a osodwyd gan y *Safonau*. Dylai penderfyniadau adlewyrchu'r disgwyl bod ANG wedi atgyfnerthu ei addysg athro cychwynnol ac wedi dangos ei allu i gyrraedd y safonau perthnasol yn gyson dros gyfnod parhaol tra wrth eu gwaith.

## Beth yw'r *Safonau Athrawon* (Cymru)?

Ar gyfer ANG yng Nghymru, mae'r model adolygu a datblygu yn cynnig y cyd-destun ar gyfer ei ddatblygiad hirdymor ac yn amlinellu'r safonau athro wrth ei waith y disgwylir iddo gyrraedd ar ddiwedd ei gyfnod sefydlu. Nod y model yma yw codi safonau addysgu a gwella deilliannau dysgwyr ar draws Cymru drwy gysylltu safonau proffesiynol ymarferwyr, rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol i un system gydlynol.



## Ble gaf i gwblhau fy nghyfnod sefydlu?

Gellir cwblhau'r cyfnod sefydlu yn y sefydliadau canlynol os ydynt yn cwrdd â'r meini prawf canlynol:

- ysgol berthnasol yn Lloegr – mae hyn yn cynnwys ysgol fabanod, plant iau, cynradd, uwchradd neu ganol a gynhelir; ysgol feithrin heb ei gynnal neu a gynhelir; ysgol feithrin sydd yn ffurfio rhan o ysgol a gynhelir; canolfan i blant a gynhelir gan yr awdurdod lleol; ac uned cyfeirio disgyblion (PRU)
- ysgol annibynnol yn Lloegr (gan gynnwys academiâu, ysgolion rhydd a cholegau technegol dinesig) neu ysgol feithrin annibynnol sydd yn dewis cynnig cyfnod sefydlu statudol
- sefydliad addysg bellach (AB), gan gynnwys coleg chweched dosbarth yn Lloegr
- ysgol neu sefydliad AB yng Nghymru lle gall y cyfnod sefydlu gael ei gynnal o dan *Reoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar Gyfer Athrawon Ysgolion) (Cymru) 2005* gan gynnwys ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir sydd yn cynnig cyfle i gwrdd â'r safonau, ysgolion arbennig sydd ddim yn cael eu cynnal ac ysgolion annibynnol sydd yn cwrdd â gofynion y cwricwlwm cenedlaethol
- ysgol Brydeinig dramor sydd yn cael ei arolygu gan gorff arolygu a gymeradwywyd gan y DfE yn erbyn y *Safonau Ysgolion Tramor* ac sydd yn aelod o gymdeithas a achredwyd gan y DfE.

Ni ellir cwblhau'r cyfnod sefydlu yn y sefydliadau canlynol (gyda rhai eithriadau):

- canolfan hyfforddi diogel
- ysgol sydd o dan fesurau arbennig (gweler tudalen 7)
- sefydliad AB a ystyrir i fod yn anfoddfaol (categori 4) (gweler tudalen 7)
- sefydliad AB a dderbyniodd gategori 4 am arweinyddiaeth a rheolaeth (gweler tudalen 7)
- ysgolion annibynnol a meithrin yn ogystal â sefydliadau blynyddoedd cynnar eraill sydd ddim yn cynnig cyfnod sefydlu statudol na chwaith yn cwrdd â gofynion y cwricwlwm cenedlaethol
- uned cyfeirio disgyblion (PRU) yng Nghymru
- ysgolion arbennig cymunedol neu sylfaen a sefydlwyd mewn ysbytai yng Nghymru
- ysgolion tramor, gan gynnwys Ysgolion Prydeinig Tramor sydd:
  - heb gael eu harolygu'n ddiweddar (o fewn pedair blynedd) gan arolygaeth gymeradwy
  - wedi cael dyfarniad arolygaeth ond heb gwrdd â phob un o'r safonau/categoriâu yn foddhaol.

Pan fydd sefydlu yn gallu digwydd neu barhau mewn ysgol a gynhelir sydd o dan fesurau arbennig neu sefydliad AB a dyfarnwyd yn anfoddhaol:

- gall ysgolion barhau i gynneg sefydlu lle y cafodd athro ei gyflogi neu ar gynllun addysg athrawon a seiliwyd ar gyflogaeth o fewn yr un ysgol cyn derbyn SAC, neu a oedd wedi dechrau cyn i'r ysgol ddechrau mynd o dan fesurau arbennig.
- yn gyffredinol, unwaith y bydd ysgol wedi dechrau mynd o dan fesurau arbennig, nid oes ganddi hawl i recriwtio unrhyw ANGau newydd. Fodd bynnag fe all arolygwr Ofsted ddyfarnu p'un a yw ysgol yn addas neu beidio at ddiibenion sefydlu. Mewn rhai achosion, yn enwedig gydag ysgolion mwy o faint, gall Ofsted ganiatáu penodiadau ANG o fewn adrannau neu adrannau penodol neu adrannau pynciau o fewn ysgol
- Gall ANGau sydd eisoes ar gyfnod sefydlu mewn sefydliad AB lle y dyfernir bod effeithiolrwydd cyffredinol y ganolfan, neu ran o'i addysg neu hyfforddiant yn anfoddhaol (categori 4) yn ystod arolwg, barhau i gwblhau ei gyfnod sefydlu. Gall sefydliadau AB a dyfernir yn anfoddhaol, neu pan ddyfernir bod yr arweinyddiaeth neu reolaeth yn anfoddhaol, ofyn i Ofsted wneud dyfarniad ynglŷn â'u gallu, yn rhannol neu'n gyfan i gynnal cyfnod sefydlu a gofyn am ganiatâd Ofsted i wneud hynny
- ymhob achos, rhaid i'r corff addas fod wedi ei fodloni na fydd yr amgylchiadau yn amharu ar allu'r ANG i gwblhau'r cyfnod sefydlu'n llwyddiannus.

## Oes yna derfyn amser er mwyn dechrau'r cyfnod sefydlu?

Tra ein bod yn annog ANG i ddechrau cyfnod sefydlu cyn gynted â phosib wedi iddynt dderbyn statws athro cymwys (SAC)), does dim terfyn amser ar gyfer dechrau neu orffen cyfnod sefydlu. Mae hwn yn berthnasol yng Nghymru a Lloegr.

## A fydd cyflenwi yn cyfrif tuag at gwblhau cyfnod sefydlu?

### Cyflenwi yn Lloegr

Yn Lloegr, bydd gwaith cyflenwi mewn ysgol berthnasol yn cyfrif tuag at gyfnod sefydlu os yw am gyfnod o un tymor neu fwy. Ni fydd gwaith cyflenwi o lai na thymor (h.y. cyflenwi byrdymor) yn cyfrif tuag at gwblhau cyfnod sefydlu. Fodd bynnag, os byddwch yn dechrau gwaith mewn ysgol berthnasol ar sail gyflenwi fyrdymor a bod hyn yn cael ei ymestyn, yna rhaid rhoi rhaglen sefydlu mewn lle ar unwaith cyn gynted ag y daw hi'n amlwg bydd y cytundeb a ymestynnwyd yn parhau am dymor neu fwy.

### Cyflenwi yng Nghymru

Bydd gwaith cyflenwi mewn ysgol berthnasol yn cyfrif tuag at sefydlu hyd yn oed os yw'n parhau am lai na thymor. Fodd bynnag, rhaid i'r gwaith a wnaed fod yn un sesiwn ysgol o leiaf (e.e. bore neu brynhawn). Os byddwch yn ymgymryd â gwaith cyflenwi ar sail byrdymor (h.y. am lai nac un tymor), dylech sicrhau eich bod yn cwblhau ffurflen rybuddio Cyfnod Sefydli CGA fel athro cyflenwi byrdymor cyn dechrau'r cyfnod sefydlu neu o fewn deng niwrnod ar ôl dechrau'r cyfnod sefydlu fan bellaf. Rhaid i chi gofnodi pob cyfnod o'ch cyflogaeth hefyd o un sesiwn neu fwy gyda'r CGA gan ddefnyddio mynediad y CGA drwy'r we. Mae gwybodaeth bellach ar gael ar wefan y CGA ar [ewc.wales](http://ewc.wales)

**Noder:** Ni all cyfnodau o lai na thymor gyfrif tuag at gyfnod sefydlu, ac eithrio yng Nghymru, lle y gellir ystyried tystiolaeth o sesiynau ysgol unigol.

## Gaf i gwblhau'r cyfnod sefydlu drwy weithio mewn mwy nag un ysgol?

Does dim i'ch rhwystro rhag cwblhau eich cyfnod sefydlu mewn mwy nac un sefydliad ar yr un pryd cyhyd â bod pob cytundeb cyflogaeth gwahanol yn parhau am o leiaf un tymor yn Lloegr neu un sesiwn yng Nghymru. Caiff eich cytundebau gwahanol eu hychwanegu at ei gilydd er mwyn cyfrifo'r nifer o ddyddiau/sesiynau all fynd tuag at gwblhau eich cyfnod sefydlu a chânt eu cofnodi gan eich pennaeth

## Pa mor hir sydd yn rhaid i fy nghyfnod sefydlu barhau os ydw i'n gweithio rhan amser?

### Lloegr

Bydd angen i ANGau sydd yn gweithio rhan-amser gwblhau cyfnod sefydlu sydd yn gyfwerth ag un flwyddyn academaidd lawn-amser (FTE). Felly bydd angen i ANG sydd yn gweithio rhan-amser ar gyfradd 0.5 FTE gwblhau'r cyfnod sefydlu dros gyfnod o ddwy flynedd academaidd.

### Cymru

Rhaid i bob ANG rhan-amser gwblhau cyfnod sefydlu o 380 sesiwn ysgol.



# Cyrsiau i chi ar ddechrau eich gyrfa



**Cyrsiau AM DDIM**  
Gweithdy haf  
i athrawon sydd  
newydd gymhwyso  
19-21 Gorffennaf 2017  
Athrawon ar ddechrau  
eu gyrfa  
24-25 Tachwedd 2017

Rydym yn gwerthfawrogi faint o sialens  
yw cychwyn eich gyrfa addysgu.

Fe allwn ni eich helpu i ganolbwyntio  
ar yr heriau gyda phwyslais ar y  
technegau a'r sgiliau a fydd yn  
gymorth ichi lwyddo.

## **Mae ein cyrsiau ANG yn eich galluogi i:**

- adeiladu ar eich dysgu yn ystod addysg  
athro cychwynnol
- gwella'ch hyder a dechrau'n gadarnhaol gyda  
disgyblion, rhieni ac eraill
- datblygu arddulliau dysgu cadarnhaol a  
strategaethau ystafell ddosbarth
- deall ymddygiad disgyblion yn well
- paratoi gwersi sy'n symud disgyblion  
ymlaen gyda'u dysgu
- deall y cysylltiadau rhwng addysgu, cynnwys  
gwersi ac ymrwymiad disgyblion
- archwilio materion amodau gwasanaeth  
a'ch hawliau yn y gwaith
- cymryd rhan ymarferol yn eich undeb

Am fanylion pellach am y cyrsiau hyn ac er mwyn gwneud cais ar lein ewch i [teachers.org.uk/learning](https://www.teachers.org.uk/learning)

# Oes yna unrhyw eithriadau rhag cwblhau cyfnod sefydlu statudol?

## Lloegr

Os ydych yn athro o dramor sydd wedi hyfforddi a chymhwyso unrhyw le o fewn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE)/Swistir, Awstralia, Seland Newydd, Canada neu Unol Daleithiau America, fe gewch addysgu yn Lloegr heb fod angen i chi ymgymryd â chyfnod sefydlu statudol. I gael mwy o wybodaeth am Statws Athro Cymwysedig yn Lloegr cysylltwch â'r tîm yn [qts.enquiries@education.gsi.gov.uk](mailto:qts.enquiries@education.gsi.gov.uk)

Os wnaethoch chi dderbyn statws Athro Cymwys Sgiliau a Dysgu (QTLS) gan y Sefydliad dros Ddysgu (Institute for Learning (IFL)) a'ch bod yn aelod o'r IFL, does dim gofyn i chi ymgymryd â chyfnod sefydlu statudol.

Mae yna nifer o eithriadau eraill rhag gorfod sefyll y cyfnod sefydlu a gellir dod o hyd i wybodaeth bellach yng nghanllawiau'r DfE, Y Cyfnod Sefydli ar gyfer *Athrawon Newydd Gymhwyso* yn [gov.uk](http://gov.uk)

## Cymru

Gallwch ddysgu yng Nghymru heb orfod ymgymryd â'r cyfnod sefydlu os ydych yn athro sydd wedi hyfforddi a chymhwyso dramor o unrhyw le o fewn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd/Swistir. I gael mwy o wybodaeth am Statws Athro Cymwysedig yng Nghymru cysylltwch â Chyngor y Gweithlu Addysg i gael ffurflen gais EC1.

Os ydych yn athro sydd wedi hyfforddi a chymhwyso dramor o du allan i'r AEE fe allwch gael eich eithrio o orfod cwblhau cyfnod sefydlu yng Nghymru yn ddibynol ar amodau penodol. Dylai athrawon a hyfforddwyd dramor sydd angen mwy o wybodaeth ddanfôn e-bost at Lywodraeth Cymru i [inductioninfo@wales.gsi.gov.uk](mailto:inductioninfo@wales.gsi.gov.uk)

Ceir nifer o eithriadau eraill i'r cyfnod sefydlu a gellir dod o hyd i wybodaeth bellach yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r Cyfnod Sefydli ar gyfer *Athrawon Newydd Gymhwyso yng Nghymru* ar [cymru.gov.uk](http://cymru.gov.uk)

# Beth am y profion sgiliau?

Yn Lloegr, mae disgwyl i bob athro dan hyfforddiant lwyddo yn y profion sgiliau mewn rhifedd a llythrennedd cyn y gellir dyfarnu SAC iddyn nhw.

Mae disgwyl i bob ymgeisydd addysg cychwynnol athrawon lwyddo yn y profion sgiliau hyn mewn rhifedd a llythrennedd cyn y gallant dechrau eu cwrs.

Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth ynglŷn â'r profion sgiliau ar [sta.education.gov.uk](http://sta.education.gov.uk)

Os ydych yn ymgymryd ag addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru, bydd rhai sefydliadau yn gofyn i chi eistedd a llwyddo mewn prawf llythrennedd a rhifedd mewn cyfweiliad cyn dechrau'r cwrs. Unwaith eich bod ar y cwrs, bydd athrawon dan hyfforddiant yn derbyn awdit cyson ac ar ddiwedd y cwrs bydd angen iddyn nhw ddangos eu bod nhw o leiaf wedi cadw'r un safon perfformiad cyn y gellir dyfarnu SAC iddyn nhw. Ar hyn o bryd, does dim prawf llythrennedd a rhifedd ffurfiol gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd y cwrs.



# Yr NUT - yr undeb i athrawon newydd

Cymerwch ran gyda'ch undeb cyn gynted i chi ddechrau eich gyrfa addysgu trwy:

- rhwydweithio gydag athrawon newydd eraill mewn gweithgareddau lleol a chenedlaethol
- adael i'ch undeb i wybod yr hyn sy'n bwysig i chi fel athro newydd
- gefnogi ymgyrchoedd NUT lleol a chenedlaethol.
- ddod yn weithredol yn eich ysgol a'ch ardal leol fel cynrychiolydd NUT



Am fanylion pellach ar sut i fod yn rhan o weithgareddau cysylltwch â'r NUT trwy [newteachers@nut.org.uk](mailto:newteachers@nut.org.uk)

## Beth yw fy hawliau yn ystod y cyfnod sefydlu? Beth allai i'w ddisgwyl o fewn rheswm?

Cred yr NUT y dylai rhaglenni sefydlu fod yn rhesymol. Ei chred hefyd yw y dylai fod gennych yr hawl i gytundeb parhaol.

**Mae gennych yr hawl** i swydd ddisgrifiad rhesymol sydd:

- ddim yn gwneud galwadau afresymol
- ddim yn disgwyl i chi addysgu tu allan i'ch ystod oedran na'r pwnc (pynciau) i chi hyfforddi ar eu cyfer (Cymru) neu gyflogi (Lloegr)
- ddim yn cyflwyno problemau disgyblaeth i chi yn ddyddiol sydd yn afresymol neu'n ddifrifol
- yn cynnwys dysgu'r un dosbarth neu ddosbarthiadau yn rheolaidd.
- yn cynnwys prosesau cynllunio, addysgu ac asesu tebyg i athrawon sydd yn gweithio mewn swyddi tebyg o fewn eu hysgolion hwythau
- ddim yn cynnwys cyfrifoldebau ychwanegol tu allan i addysgu heb fod yna ddarpariaeth paratoi a chefnogaeth addas.

At hynny, **mae gennych hawl i'r canlynol**:

- bod yn rhan o'r Cynllun Pensiwn Athrawon
- cymorth a chynrychiolaeth gan undeb llafur gydnabyddedig
- diwrnodau hyfforddiant mewn swydd a chyfleoedd hyfforddi eraill

- cymorth gweinyddol
- gweithio mewn amgylchedd heb ddim gwahaniaethu nac aflonyddu
- y defnydd o wasanaeth cwnsela

**Mae gennych yr hawl** lwyth gwaith o ddim mwy na 90 y cant o amserlen athrawon eraill ar y brif ystod gyflog yn yr ysgol heb bwyntiau cyfrifoldeb. Mae hwn yn ychwanegol i ostyngiad yn yr amserlen mewn perthynas ag amser cynllunio, paratoi ac asesu mae pob athro'n ei gael. Cred yr NUT y dylai eich amser rhydd o addysgu ar gyfer dibenion y cyfnod sefydlu:

- fod mewn blociau defnyddiol, nad yw'n llai na hanner diwrnod
- fod wedi'i amserlennu ymhell o flaen llaw i ganiatáu cynllunio ar gyfer yr amser
- beidio achosi llwyth gwaith cynyddol i athrawon eraill
- fod â'r un athrawon profiadol yn cyflenwi'n rheolaidd fel y gall safonau da dysgu ac ymddygiad y disgyblion barhau
- fod wedi'i amserlennu a heb ei ganslo ar wahân i amgylchiadau eithafol.

**Mae gennych hawl** i raglen sefydlu wedi'i chynllunio, ac sydd wedi'i deilwra i'ch anghenion a'ch amgylchiadau unigol. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i chi:

- dderbyn arsylwadau gwersi yn rheolaidd drwy gydol eich cyfnod sefydlu a chael trafodaeth ddilynol. Dylai arsylwadau ganolbwyntio ar agweddau penodol o'ch addysgu
- dderbyn adolygiadau proffesiynol o'ch cynnydd
- arylwi athrawon profiadol yn eich ysgol neu mewn ysgolion eraill.

Yng Nghymru, caiff eich cyfnod sefydlu ei seilio ar eich proffil dechrau gyrfa.

Dylai'r trefniadau ar gyfer cynnal arsylwadau ar eich addysgu cael eu gwneud ymhell o flaen llaw a dylai cofnod ysgrifenedig byr fod ar gael ar bob achlysur. Fe'ch cynghorir gan yr NUT i gadw copi o gofnodion o'r fath.

**Mae gennych hawl** i diwtor sefydlu fydd yn cynnig cefnogaeth a monitro o ddydd i ddydd.

Yng Nghymru, rhaid i'r pennaeth ddynodi mentor yn yr ysgol a fydd yn gweithio â chi. Bydd y rhaglen sefydlu a mentora ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwysu yn cael ei chydlynu gan y consortia rhanbarthol. Os hoffech chi ragor o wybodaeth am y trefniadau mentora allanol, cysylltwch yn uniongyrchol â'ch consortiwm.

**Mae gennych hawl** i gefnogaeth gan eich pennaeth, sydd yn gyfrifol am eich rhaglen sefydlu ac am asesu os ydych wedi cwrdd â'r Safonau Athrawon (Lloegr) neu'r Safonau Athrawon wrth eu Gwaith (Cymru) ac ar gyfer sicrhau eich bod wedi derbyn cyngor ar:

- amserlenni gwersi a threfniadau cefnogaeth, enwau a chysylltiadau tiwtoriaid sefydlu ac amserlen ar gyfer asesiadau ffurfiol a chyfarfodydd
- trefniadau adrodd a hawliau i gyflog yn ystod cyfnodau o salwch, cysylltiadau wedi'u henwi ar gyfer absenoldebau eraill, e.e. cyfnod mamolaeth
- trefniadau ar gyfer tâl
- darpariaethau ar gyfer pensiynau ac unrhyw hawliau eraill
- polisiau iechyd a diogelwch a chyfleoedd cyfartal
- polisiau perthnasol eraill gan gynnwys trefniadau ar gyfer cyflenwi a diogelu plant
- natur y cytundeb cyflogaeth, rhestr o ddyletswyddau a threfniadau rheolaeth.

**Mae gennych yr hawl** i oruchwyliaeth gan y corff priodol. Dylai darparu enw unigolyn er mwyn i chi godi unrhyw bryderon ynglŷn â'ch cyfnod sefydlu sydd yn mynd tu hwnt i systemau neu weithdrefnau'r ysgol.

**Cred yr NUT bod gennych yr hawl** i asesiadau cefnogol a ddylai bwysleisio ar lwyddiant a chyflawniad yn hytrach nag or-bwysleisio anawsterau neu fethiannau. Dylai asesiadau, gan gynnwys targedau, gael eu hadolygu gennych chi a'ch tiwtor a'u haddasu er mwyn cwrdd ag unrhyw anghenion a gafodd eu nodi yn ystod yr asesiad ffurfiol.

## Dydw i ddim yn ANG yng Nghymru— oes angen i fi ddefnyddio fy Mhroffil Dechrau Gyrfa?

Cynlluniwyd y Proffil Dechrau Gyrfa yng Nghymru i gynorthwyo athrawon dan hyfforddiant a'r rhai oedd Newydd Gymhwysu i feddwl am eu datblygiad proffesiynol.

Fe'i seiliwyd ar dri chyfnod o newid:

- tuag at ddiwedd addysg cychwynnol athro
- ar ddechrau'r cyfnod sefydlu
- ar ddiwedd y cyfnod sefydlu.

Mae gofyn i bob athro newydd yng Nghymru rannu eu Proffil gyda'r ysgol ble maent yn ymgymryd â'r cyfnod sefydlu. Dylai eich Proffil gynnwys gwybodaeth werthfawr ynglŷn â'ch cryfderau a meysydd datblygu sydd o flaenoriaeth, er mwyn i chi a'ch mentor yn yr ysgol weithio gyda'ch gilydd i ddatblygu cynllun gweithredu sefydlu sydd yn seiliedig ar ymatebion eich Proffil. Gall hefyd gael ei ddefnyddio i gefnogi'r broses sefydlu, er enghraifft, drwy eich helpu chi a'ch mentor ysgol adolygu a diwygio'r cynllun gwaith. Bydd angen i'ch mentor allanol weld eich Proffil.



## A oes yn rhaid imi addysgu amserlen lawn?

Nag oes, rhaid i'r pennaeth sicrhau bod gan Athro Newydd Gymhwyso amserlen lai o ddim mwy na 90 y cant o amserlen athrawon eraill yr ysgol er mwyn gwneud gweithgareddau sy'n rhan o'u rhaglen sefydlu. Mae hyn yn ychwanegol at eich hawl i 10 y cant o amser cynllunio, paratoi ac asesu. Rhaid i Athrawon Newydd Gymhwyso mewn ysgolion annibynnol, gan gynnwys academiâu ac ysgolion rhydd, ysgolion meithrin annibynnol a cholegau addysg bellach gael amserlen lai ar sail gymharol hefyd.

## A oes gen i hawl i amser cynllunio, paratoi ac asesu?

Oes, mae gan bob athro hawl i amserlen lai er mwyn cael amser cynllunio, paratoi ac asesu.

## Sut alla i ddod o hyd i fwy o wybodaeth?

[teachers.org.uk](http://teachers.org.uk)

Ewch i wefan yr NUT am yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn ag ymgyrchoedd, eich cyflog, a'ch amodau gwaith.

[gov.uk/dfe](http://gov.uk/dfe)

Mae hafan gwefan yr Adran Addysg (DfE) yn amlinellu'r disgwyliadau a gofynion ar gyfer y cyfnod sefydlu yn Lloegr

[learning.wales.gov.uk](http://learning.wales.gov.uk)

Gwefan Llywodraeth Cymru sydd yn amlinellu disgwyliadau a gofynion y cyfnod sefydlu yng Nghymru.

[ewc.wales](http://ewc.wales)

Ffôn: **029 2046 0099**

E-bost: **information@ewc.wales**

Cysylltwch â'r Cyngor Gweithlu Addysg am gyngor ar gofrestru yng Nghymru ac am gyngor ynglŷn â'r cyfnod sefydlu a'r ddwy flynedd ddilynol o Ddatblygiad Proffesiynol Cynnar yng Nghymru, gan gynnwys cyllido.

## Pa gefnogaeth gaf i gan yr NUT?

Mae croeso i aelodau ofyn am gyngor a chefnogaeth gan yr NUT ar unrhyw adeg o'u cyfnod sefydlu. Os oes gyda chi unrhyw bryderon, mae hi o fudd i chi i'w datrys cyn gynted â phosib. Peidiwch â'i adael yn rhy hwyr! Dylech ofyn am gyngor gan yr NUT os:

- ydych yn credu nad ydych yn derbyn eich hawliau
- eich bod yn credu nad yw argymhellion yr Undeb ar gyfer arfer dda, a nodwyd yn y ddogfen hon, wedi'u hateb a bod hynny wedi effeithio'n negyddol ar eich sefydlu'n llwyddiannus
- yw absenoldeb hir yn effeithio ar eich cyfnod sefydlu, fel absenoldeb hir neu ailadroddus drwy salwch
- oes angen cyngor ar famolaeth arnoch chi yn ystod y cyfnod sefydlu
- ydych yn poeni am y gefnogaeth a roddwyd i chi yn yr ysgol a'ch bod yn credu fod y berthynas waith/broffesiynol gyda'ch tiwtor sefydlu, pennaeth, neu aelod arall o staff yn llesteirio'ch cynnydd
- ydych yn poeni o gwbl am lwyddiant eich cyfnod sefydlu neu'n dymuno apelio yn erbyn penderfyniad ffurfiol.

## Sut ydw i'n dod i gyswllt?

Yn eich ysgol, eich pwynt cyswllt cyntaf gyda'ch Undeb yw eich cynrychiolydd NUT. Os nad oes yna gynrychiolydd NUT yn yr ysgol, yn Lloegr, fe ddylech gysylltu â llinell gymorth yr NUT, sef AdviceLine, ac yng Nghymru, gydag NUT Cymru. Am gyngor ac arweiniad yn Lloegr cysyllter â:

### **NUT AdviceLine**

Ffôn: **020 3006 6266**

E-bost: [nutadvice@nut.org.uk](mailto:nutadvice@nut.org.uk)

Yng Nghymru cysyllter â:

### **NUT Cymru**


Ffôn: **029 2049 1818**

E-bost: [cymru.wales@nut.org.uk](mailto:cymru.wales@nut.org.uk)

# Rhanbarthau NUT a Chymru

Dyma'r ardaloedd a weinyddwyd gan swyddfeydd rhanbarthol yr NUT yn Lloegr, ac NUT Cymru yng Nghymru, a'u manylion cyswllt.

- 1 Y Gogledd
- 2 Y Gogledd Orllewin
- 3 Swydd Efrog a'r Canolbarth
- 4 Canolbarth Lloegr
- 5 Y Dwyrain
- 6 Y De Ddwyrain
- 7 Y De Orllewin
- 8 Llundain
- C Cymru



**Swyddfa Rhanbarthol NUT y Gogledd**Ffôn: **0191 482 7700**Ebost: **northern@nut.org.uk****Swyddfa Rhanbarthol NUT y Gogledd Orllewin**Ffôn: **01204 521 434**Ebost: **north.west@nut.org.uk****Swyddfa Rhanbarthol NUT Swydd Efrog/Canolbarth**Ffôn: **01302 342 448**Ebost: **yorkshire.midland@nut.org.uk****Swyddfa Rhanbarthol NUT Canolbarth Lloegr**Ffôn: **0121 647 4397**Ebost: **midlands@nut.org.uk****Swyddfa Rhanbarth NUT y Dwyrain**Ffôn: **01638 555 300**Ebost: **eastern@nut.org.uk****Swyddfa Rhanbarth NUT y De Ddwyrain**Ffôn: **01444 894 500**Ebost: **south.east@nut.org.uk****Swyddfa Rhanbarth NUT y De Orllewin**Ffôn: **01392 258 028**Ebost: **south.west@nut.org.uk****Swyddfa Rhanbarthol NUT Llundain**Ffôn: **020 8477 1234**Ebost: **london@nut.org.uk****Cymru NUT Cymru**Ffôn: **029 2049 1818**Ebost: **cymru.wales@nut.org.uk**

**RYDYM  
YN**

**GRYFACH**

**GYDA'N  
GILYDD**

# Penderfynodd yr aelodau

Ewch i **teachers.org.uk** i gael mwy o wybodaeth

**NUT + ATL =  
Undeb Addysg Cenedlaethol**

O 1 Medi 2017 bydd yr NUT ac ATL yn ffurfio undeb newydd.

Fel aelod o'r NUT byddwch yn trosglwyddo'n awtomatig i'r Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU).

NUT + ATL =

# Undeb Addysg Cenedlaethol

**Cymhwyso  
yn 2017?**

Aelodaeth lawn  
am  
**£1** yn unig

O 1 Medi 2017 bydd yr NUT ac ATL yn ffurfio undeb newydd.  
Fel aelod o'r NUT byddwch yn trosglwyddo'n awtomatig i'r  
Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU).

Er mwyn ymuno neu uwchraddio o aelodaeth myfyriwr i aelodaeth  
lawn ewch ar-lein **teachers.org.uk/join**  
neu ffoniwch ein llinell ymaelodi **020 7380 6369**



Dilynwch ni ar Twitter  
**twitter.com/NUTonline**



Dewch o hyd i ni ar Facebook  
**facebook.com/nut.campaigns**